

Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

314 - Beirniadaeth Adolygu Ffilm Bl 6 ac iau

Beirniad: Hywel Roberts

CYNTAF: Encanto – Martha Grug Davies

Adolygiad cynhwysfawr a darllenadwy iawn. Cymraeg graenus a disgrifiadau gwych o'r ffilm. Rwyd ti'n darparu amlinelliad da iawn o'r ffilm ond yn oflaus am beidio a rhoi gormod o wybodaeth l'r gynulleidfa! Diddorol clywed am dy farn am y cymeriadau a'r gerddoriaeth – rwyd ti'n iawn, mae'r caneuon yn wych! Dalier ymlaen I wyllo ffilmiau a'u trafod ac adolygu!

AIL: Encanto – Leusa Roberts

Nes I fwynhau'r adolygiad yma'n fawr iawn; rwyd ti'n darparu gwybodaeth gynhwysfawr am y ffilm ac yn crynhoi'r stori yn gret! Roedd y darn yn egluro'r defnydd o liw a sut y mae lliw yn gallu lliwio a dylanwadu ar ein dehongliad o'r stori yn wych – yn dangos dy fod yn gwerthfawrogi'r holl elfennau sy'n creu ffilm dda. Da iawn hefyd am bwysleisio neges y ffilm. Diolch am adolygiad gret!

TRYDYDD: TinTin – Owain Lewis

adolygiad da iawn, lot o wybodaeth am y ffilm a gwych gweld ti'n cymharu'r ffilm gyda'r llyfr. Mae'n amlwg dy fod yn ffan mawr! Nes I wir fwynhau'r cyferiaid at y steil animeiddio. Byddai ychydig mwy o ddadansoddi'r o'r ffilm wedi bod yn gret ond ar y cyfan, adolygiad gret ac wedi gwneud ifi eisiau gweld y ffilm!

Eraill: Harry Potter – Aran Deochand

Fe wnes I fwynhau'r adolygiad yma'n fawr am iti fod yn drylwyr ac yn onest. Braff oedd gweld dy ddadansoddiad manwl o'r elfennau a oedd yn wahanol l'r llyfr – rwyd ti'n amlwg wedi meddwl am y rhain yn fawr. Braff hefyd clywed am dy hoff ddarnau. Byddai ychydig yn fwy o wybodath am yr uchafbwyntiau neu prif elfennau wedi bod yn help ond adolygiad da. Diolch!